

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Donna Watts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
Nos Iau 15 Mehefin 2017 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Jones
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Mair Jones
Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Gareth Davies
Y Cynghorydd Gwen Griffith

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Roberts a Angharad Williams.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2017.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Cerrig Llwydion – pryderon am goeden sydd yn tyfu rhwng y ffens a'r wal – yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, adroddwyd mai cyfrifoldeb y tirlfeddiannwr ydi'r goeden.

3.2 Llwybr beics pentref Llandygai- adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Y Clerc i holi am symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref.

3.3 Tynal Tywyll- penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am unrhyw syniadau/trefniadau oedd ganddynt am agoriad swyddogol i'r dwnnel. Dim ateb hyd yn hyn.

3.4 Adroddwyd bod bolard pren ar y llwybr tu ôl i'r hen siop wedi pydru. Cyngor Gwynedd am osod un newydd.

3.5 Tynal Tywyll- yn hynod o boblogaidd ac mae ceir yn parcio ar Allt Cerrig Llwydion, sydd yn gul yn barod. Yn dilyn cyfarfod ar y safle, mae Cyngor Gwynedd am osod arwyddion 'arafu' yno.

3.6 Pengamfa- plastr yn disgyn oddi ar y wal. Angen cael prisiau am plastr newydd.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2017'

Cyflwynwyd: E-bost gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn a datblygu'r gwasanaeth at y dyfodol. Angen anfon unrhyw sylwadau erbyn 31 Gorffennaf 2017. Penderfynwyd bod pawb i ddarllen y dogfennau erbyn y cyfarfod nesaf, er mwyn gallu darparu unrhyw sylwadau.

Cyflwynwyd: E-bost gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd-gwahoddiad i noson o ddiolchiadau. Y Cynghorwyr i ateb fel unigolion os yn dymuno mynychu.

Cyflwynwyd: E-bost gan Un Llais Cymru-rhestr o gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael o mis Mai hyd at mis Rhagfyr. Y Cyng. Iwan Hywel am fynychu 'Gynefino i Gynghorwyr Newydd, 22.06.17 yn Llangefni.

Cyflwynwyd- E-bost gan Un Llais Cymru yn gofyn barn am y noson orau yr wythnos i fod yn cynnal cyfarfodydd. Penderfynodd y Cynrychiolwyr mai nos Fercher fuasai orau ganddynt.

5. Gwaith y mis

5.1 Croes Celtaidd yn Graig y Pandy-penderfynwyd holi Cadw os yw'r groes wedi ei chofrestru, ac os oes modd cael arwydd brown i'r safle.

5.2 Gwaith tacluso angen ei wneud o gwmpas Canolfan Tregarth-ar y raglen waith ar gyfer wythnos nesaf.

5.3 Hysbysfwrdd Llandygai- angen prisiau ar gyfer atgyweirio.

5.4 Gwair ger Felin Fawr yn felyn-angen cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os yw chwynladdwr wedi cael ei ddefnyddio ar y safle.

5.5 Pont yr Ocar-ddim yn saff, ochr pellaf i'r llyn. Angen dilyn i fyny ar ohebiaeth blaenorol at Gyngor Gwynedd.

5.6 Angen biniau a biniau baw ci bob pen i 'Tynal Tywyll' a hefyd mainc picnic ger y ganolfan yn Nhregarth. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r swyddog sy'n gyfrifol am y dwannel.

5.7 Ffens uwchben y dwannel – angen dilyn i fyny ar pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth- adroddwyd nad oedd y cyfarfod wedi digwydd hyd yn hyn.

Ysgol Llandygai- adroddwyd bod cyfarfod y llywodraethwyr heno wedi methu cael cworwm, ac wedi ei ail-drefnu'r cyfarfod ar gyfer wythnos nesaf.

Ysgol Bodfeurig- Lliwen Jones wedi ei phenodi fel Pennaeth mewn gofal.

Penderfynwyd anfon llythyr yn dymuno pob lwc iddi yn y swydd newydd.

Ysgol Dyffryn Ogwen- Alun Llwyd yn ymddeol fel Pennaeth a Dylan Davies wedi ei benodi fel Pennaeth mewn gofal. Penderfynwyd anfon llythyrau i'r ddau yn dymuno yn dda iddynt.

Un Llais Cymru- cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor- adroddodd y Cadeirydd bod 11 yn bresennol yn y cyfarfod, gyda Tudor Owen wedi ei benodi fel Cadeirydd a Sian Parry yn Is-gadeirydd. Adroddwyd bydd dogfennau sy'n amlinellu nod ac amcanion Un Llais Cymru yn cael ei anfon i'r Clercod yn y man.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mai

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Dim taliadau i'w gwneud.

9. Ffurflen Flynyddol

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

10. Cyfethol aelodau ar gyfer Ward Llandygai

Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn y Wasg ar gyfer y seddi gwag (Y Chronicle, Mail a Llais Ogwan)

11. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Codi modurdai i wasanaethu llety gwyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C16/1339/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Newid defnydd ysgubor yn uned wyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C17/0344/16/LL

Tir gyferbyn Cwr y Coed, Tregarth
Diwygio amod 1 o ganiatad cynllunio
C15/0087/16/MG

Penderfynwyd: Gwrthodwyd

C17/0374/16/LL

The Secret Garden, Nr. The Grand Lodge, Penrhyn Park, Bangor
Codi estyniadiadeiladallanolynghyd a chodi ty gwyrnewydd

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd yn hyn

C17/0373/16/CR

The Secret Garden, Nr. The Grand Lodge, Penrhyn Park, Bangor
Estyniad i adeilad allanol presennol

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd yn hyn

C17/0798/16/YA

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen, Tregarth
Codi dau 'polytunnel' plastig ar ffram fetel

Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd yn hyn

NP3/16/L3E

Tai Newyddion, Nant Ffrancon,
Bethesda
Gosod ffenestr ddormer ar yr edrychiad ochr

Penderfynwyd: Dim penderfyniad hyd yn hyn

NP3/16/27

Tir ger Llyn Idwal, Gwarchodfa Natur
Cenedlaethol Cwm Idwal
Codi pont droed newydd ar wely llechen gyda canllaw dur

Penderfynwyd: Dim penderfyniad hyd yn hyn

12. Ceisiadau Cynllunio

C17/0498/16/LL

Llaethdy Parc Bryn Cegin, Bangor
Codi ffatri/llaethdy gaws ynghyd a chaffi a ardal ymwelwyr atodol

Penderfyniad: Cefnogi

C17/0462/16/LL

Bryn Gwynt, Lon y Wern, Tregarth
Tynnu un wal fewnol, dymchwel porth cefn a chodi estyniad cefn newydd sy'n cynnwys balcony

Penderfyniad: Cefnogi

13. Unrhyw fater brys arall

13.1 Cyfraniad mynwentydd – penderfynwyd cynyddu'r cyfraniad i £750 ar gyfer yr eglwysi, ac anfon y sieciau ar unwaith.

13.2 Trafodwyd bod angen edrych ar gyfarpar ac adnoddau ar gyfer bobl ifanc yr ardal, gan ddechrau gyda gwneud archwiliad ar beth sydd ei angen yn y fro. Penderfynwyd gwahodd Amanda Davies a/neu Dafydd Einion Jones i'r cyfarfod mis nesaf, i helpu i gynllunio briff.